# Prisio fesul Uned: Gwybodaeth i ddefnyddwyr

CMA
Competition & Markets Authority

## Beth yw prisio fesul uned?

Mae prisio fesul uned yn system labelu sy'n eich helpu i gymharu prisiau nwyddau. Mae'n arddangos cost gwahanol gynnyrch yn ôl pwysau, neu gyfaint.

Mae'n eich helpu i gymharu costau gwahanol gynnyrch, beth bynnag yw eu maint unigol. Gall cymharu prisiau unedau eich helpu i arbed arian.

## Beth mae'n ei ddangos i mi?

- Mae prisiau unedau yn dangos i chi faint fyddai gwahanol gynnyrch yn costio pe byddent yn cael eu gwerthu mewn pecynnau o'r un pwysau neu gyfaint. Mae hyn yn eich helpu i gymharu prisiau cynnyrch tebyg a werthir mewn pacedi o wahanol feintiau.
- Yn aml fe roddir prisiau unedau yn ôl pwysau (kilo neu gram) neu gyfaint (litr neu fililitr). Efallai y byddwch hefyd yn gweld prisiau wedi eu rhestru fesul eitem.

## Sut all hyn fy helpu?

- Gall cymharu prisiau unedau eich helpu i ddewis y cynnyrch sy'n cynnig y gwerth gorau. Weithiau bydd eitemau a werthir mewn pecynnau mwy yn edrych fel eu bod yn cynnig gwerth gwell, ond mewn gwirionedd gallant fod yn ddrytach yn ôl pwysau neu gyfaint.
- Er enghraifft, wrth ddewis rhwng tri phecyn o sudd oren o wahanol faint, byddai defnyddio prisiau unedau yn eich helpu i wirio pa fath o sudd oren yw'r drytaf:

| Cynnyrch | Potel o Sudd Oren | Carton o Sudd Oren | Pecyn Teulu o Sudd Oren |
|---|---|---|---|
| Maint y pecyn | 600ml | 1L | 1.5L |
| Pris | 95p | £2.00 | £3.50 |
| PRIS FESUL UNED | 15.8c fesul 100ml | 20c fesul 100ml | 23.3c fesul 100ml |

**Mae'r enghraifft yn dangos nad yw'r pecyn mwyaf o reidrwydd yn cynnig y gwerth gorau.**

## Ble ydw i'n gallu gweld prisiau unedau?

- Fel arfer gallwch weld pris uned cynnyrch dan gyfanswm pris y pecyn a restrir ar label silff, neu pan fydd yr eitem wedi ei rhestru ar-lein.

## Cofiwch wirio'r pris fesul uned wrth ddewis cynnyrch.






### Pam fod hyn yn bwysig?

Mae pris fesul uned yn eich helpu i lywio trwy'r miloedd o gynnyrch ar silffoedd archfarchnad, cymharu'r prisiau'n gywir a dewis yr un sy'n rhoi'r gwerth gorau i chi.

Os ydych chi wedi nodi problem gyda phrisio mewn siop, dylech gysylltu ag aelod o staff y siop.

Gallwch hefyd gysylltu â Chyngor ar Bopeth os oes gennych bryderon.

### Os oes gennych bryderon ynghylch prisio uned, cysylltwch â:

**Cyngor ar Bopeth**

www.citizensadvice.org.uk
neu ffonio 03454 04 05 06.

**Am ragor o wybodaeth ynghylch gwaith y CMA ar Brisio fesul Uned, ewch i:**

www.bit.ly/CMAunitpricing

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**